


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU Tachwedd 29ain 2023

Presennol :- Cyngorwyr :- Connor Westwood, John Gwynedd Roberts, Aled Griffith (Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Gwilym Jones, Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau :-** dim – pawb yn bresennol

2. Llwybrau

➤ **Penderfynu ar drefnu cytundeb torri gwair 2024-25 .**

Penderfynwyd :- y Clerc i hysbysebu am dendrau yn Yr Wylan a'r Ffynnon yn ôl yr arfer; cadw'r cytundeb i gytundeb blwyddyn am y tro; aros i weld faint o gynigion a ddaw i law cyn gweithredu ymhellach.

➤ **Cyng Aled Griffith :- Cynnig gyrru cais i Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd i roi arwydd "Dim ceffylau" ar y bont droed sydd yn arwain o Lon Haearn Bach i Stad Isgraig.**

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Michael Roberts yn eilio.

➤ **Derbyn cadarnhâd ail-sefydlu llwybr Peniel**

Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi derbyn cadarnhâd gan Gyngor Gwynedd eu bod yn mabwysiadu llwybr rhif 32 o Gapel Peniel i Lôn Haearn bach. Mae'r Cyngor Tref eisoes wedi cytuno i ofalu amdano unwaith y caiff ei glirio.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

3. Cae Bodawen

Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi derbyn £1,000.00 gan National Grid am gloddio 4 lleoliad yn y cae a bod y ddol flodau wedi cael ei gynaeafu a'i gadw i'w ddefnyddio fel gwrtaith. Bydd y Cadeirydd yn archwilio offer chwarae Cae Bodawen yn dilyn adroddiad G.L.Jones i asesu pa mor ddifrifol yw cyflwr yr offer er mwyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llawn ar 12.12.23.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

4. **Bryn Coffa –** dim i'w adrodd ar wahân i ganmol gwasanaeth torri gwair Cyngor Gwynedd am gadw'r safle yn daclus iawn.

5. Cae Pawb

Nododd y Clerc fod Swyddog o Lywodraeth Cymru wedi trefnu i ddod i wirio bodolaeth a lleoliad yr offer a dderbyniwyd gan y grant pan yn plannu coed ffrwythau Cae Bodawen ym mis Tachwedd 2022. Mae wedi adrodd yn ôl i'r Clerc yn datgan ei fodlonrwydd.

Yn dilyn archwiliad Cae Pawb ar 4.11.23 mae deilydd llain rhif 20 wedi derbyn rhybudd ac wedi penderfynu rhoi gorau i'r llain; ni chafwyd ymateb gan denant llain rhif 31 hyd yma. Mae'r Clerc eisoes wedi cysylltu â'r sawl sydd ar ben y rhestr aros ac mae'n awyddus iawn i gymryd drosodd llain rhif 20 yn y Flwyddyn Newydd.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

6. Llochesi Bws

Cytunwyd bod cyflwr y llochesi yn gyffredinol dda; clywyd bod Criccieth Cleaning Ltd ond yn glanhau y tu mewn i'r llochesi; fod y llochesi wrth y Parc yn eiddo i Gyngor Gwynedd; bod Cyng Gwilym Jones am weithredu ymhellach i ofyn i Gyngor Gwynedd i geisio glanhau tô y llochesi wrth y Parc.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

7. Cerflun Mr. Madocks (Gweler Gohebiaeth 1 a 2)

Yn ôl ymchwil gan y Clerc nid y Cyngor Tref yn uniongyrchol ond Pwyllgor Cob 200 a gomisiynodd y cerflun gan Stephen Faherty. Gan fod y sefyllfa yn sensitif cytunwyd i wirio'r sefyllfa cyn gofyn iddo atgyweirio'r cerflun.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i holi Cadeirydd Cob 200 ynglyn â manylion y comisiwn.

8. Syniadau i ddatblygu'r dref - gweler y Wybodaeth Gefndirol

Nodwyd bod mwy o fanylion / cynllun wedi ei yrru i Adran Cynllunio ynglyn â bwrdd gwybodaeth wrth ymyl cerflun Madocks ac mae'r Clerc bellach wedi derbyn cadarnhâd nad oes angen gwneud cais cynllunio i'w osod yn ei le.

Mae'r Cyngor Tref yn disgwyl adroddiad gan gwmni Savills ynglyn â'r Cynllun Creu Lle. Cafwyd adroddiad byr gan y Cadeirydd am y cyfarfod yn y Ganolfan ar 23.11.23 rhwng Cwmni Savill's â swyddogion o Gyngor Gwynedd ac aelodau o'r Cyngor Tref. Nodwyd eu bod yn canolbwyntio eu hymdrechion ar safle'r Coliseum; ardal agored Pencei a'r Parc.

Yn dilyn cynnig blaenorol roedd y Clerc wedi darparu prisiau o feinciau picnic plastig ar gyfer eu gosod ar y glaswellt yn ardal Pencei. Nodwyd fod y llain tir yma yn perthyn i Gyngor Gwynedd a bod angen caniatâd ganddynt i osod y meinciau.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ganiatâd i osod y meinciau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45

Marian Roberts (Clerc)

30.11.23